Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cynddelw

**New Road**
**Glynceiriog**
**Llangollen**
**Wrecsam**
**LL20 7HH**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cynddelw

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cynddelw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Cymraeg a Saesneg gan bod gan yr ysgol 2 ffrwd. |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 67 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 16 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 25.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 16.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 62.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 23/02/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/07/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yrarolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Cynddelw ac Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog yn rhan o ffederasiwn Dyffryn Ceiriog. Mae'r pennaeth yn cael ei chefnogi gan ddirprwy bennaeth ar safle Ysgol Cynddelw a phennaeth safle yn Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog. Mae Ysgol Cynddelw yn darparu addysg cyfwng Cymraeg a Saesneg i ddisgyblion mewn dwy ffrwd ar wahân.

Gyda chefnogaeth frwd y staff, mae'r pennaeth wedi creu gweledigaeth glir a chadarn sydd wedi ei seilio ar sicrhau bod lles disgyblion a datblygu eu medrau Cymraeg yn flaenllaw yng ngwaith a bywyd ysgolion y ffederasiwn. Mae gan arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, ddealltwriaeth briodol o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Maent yn cynnwys staff yn y broses hunanwella yn effeithiol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o safon y ddarpariaeth a'r cynnydd ym medrau'r disgyblion. Er hyn, nid yw'r prosesau hunanwerthuso bob tro'n galluogi arweinwyr i adnabod y meysydd i'w gwella a'r camau sydd eu hangen i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach.

Mae arweinwyr yn hynod weithgar wrth sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth i'r disgyblion. Mae athrawon yn cyd-gynllunio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion llawer o'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n effeithiol wrth gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau, yn enwedig eu medrau llafar Cymraeg a digidol. Er hyn, nid yw'r athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig na rhifedd yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda. Maent yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r ystod o brofiadau ysgogol a difyr sy'n cael eu darparu ar eu cyfer. Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd o fewn yr ardaloedd dysgu ac yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth, gan rannu eu syniadau mewn modd aeddfed a synhwyrol. Pan gaiff y disgyblion y cyfle, mae rhan fwyaf yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n gydwybodol wrth ymateb i heriau yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau dysgu annibynnol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn adnabod meysydd i'w gwella yn amserol i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau

A2 Darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu wrth eu cymhwyso mewn gweithgareddau dysgu annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Ar fynediad i’r ysgol, mae medrau llawer o ddisgyblion y ffrwd Gymraeg yn unol â’u cam datblygu, heblaw am eu medrau Cymraeg lle maent yn is. Yn y ffrwd Saesneg, mae mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yr ysgol gyda medrau sylfaenol a llafar Saesneg sy’n cyd-fynd â’u cam datblygu. Yn y ddwy ffrwd, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Yn y ffrwd Gymraeg, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod addas o eirfa a phatrymau iaith. Maent yn sgwrsio’n frwdfrydig yn yr ardaloedd dysgu, er enghraifft wrth drafod taith y tylwyth teg yn yr ardal greadigol. Yn y ffrwd Saesneg, mae medrau siarad Saesneg a Chymraeg llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n dda. Maent yn sgwrsio gan ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith Cymraeg syml yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth drafod y tywydd a’u hoff fwyd. Yn y ddwy ffrwd, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn siarad a rhannu eu syniadau yn y Gymraeg a’r Saesneg yn hyderus mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio’n hyderus mewn cyd-destunau pwrpasol.

Ar draws y ddwy ffrwd, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau darllen yn effeithiol i adnabod seiniau a llythrennau. Maent yn adeiladu dealltwriaeth gadarn o eirfa sylfaenol ac yn defnyddio ystod briodol o ddulliau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gynyddol gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys testun yn ystyrlon a synhwyrol. Mae medrau darllen llawer o’r disgyblion hynaf yn datblygu’n dda, gan gynnwys medrau darllen Saesneg disgyblion y ffrwd Gymraeg. Mae disgyblion y ddwy ffrwd yn darllen yn ddeallus mewn cyd-destunau amrywiol, er enghraifft wrth ddarllen llyfrau ffuglen gan ddisgrifio’r cymeriadau, prif destun a lleoliad y stori yn gywir. Maent yn amrywio goslef eu lleisiau ac yn defnyddio atalnodi yn fwriadus i ddangos eu dealltwriaeth. Yn ogystal, mae llawer o’r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen uwch yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft am fywyd a gwaith Marcus Rashford.

Yn y ddwy ffrwd, mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n dda. Maent yn defnyddio strwythur brawddegau syml ac yn cynnwys atalnodi addas i’r testun. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio geirfa yn llwyddiannus i ddisgrifio cylched dŵr. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer

o'r disgyblion yn ysgrifennu'n greadigol mewn ystod ddiddorol o ffurfiau, er enghraifft wrth ddisgrifio taith ddyddiol plentyn o Fadagasgar i nôl dŵr i'w theulu. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn y ddwy ffrwd yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio brawddegau amrywiol yn gywir gan gynnwys ystod o eirfa ddiddorol er mwyn cyfoethogi eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn amrywio arddull a strwythur eu hysgrifennu i wahanol destunau yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ysgrifennu llythyr ffurfiol at wneuthurwr siocled yn mynegi eu barn yn bwrpasol am effaith datgoedwigo ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig mewn cyd-destunau diddorol, yn enwedig ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau mathemateg cadarn gan ddefnyddio strategaethau rhif syml yn gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth gyfrifo rhifau hyd at 100. Maent yn adnabod enwau a phriodweddau siapiau dau a thri dimensiwn yn hyderus. Yn nosbarthiadau'r disgyblion hynaf, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werth lle hyd at filiwn, maent yn adnabod ffracsiynau cyfatebol ac yn hyderus i newid ffracsiynau i'w ffurf fwyaf syml. Maent yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau cyffredin, cyfansawdd a thrionglau yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw llawer o ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion hynaf yn y ddwy ffrwd, yn cymhwyso eu medrau rhifedd hyd orau eu gallu mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn datblygu a chymhwyso eu medrau digidol yn fedrus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gosod delweddau a sain yn fedrus wrth greu animeiddiad i egluro pwysigrwydd golchi eu dwylo'n rheolaidd er mwyn atal haint. Mae medrau digidol llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu'n dda; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio taenlenni'n hyderus wrth gyfrifo niferoedd yr ymwelwyr ac incwm dyddiol y parc anifeiliaid.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol bron bob disgybl yn datblygu'n gelfydd. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau'n effeithiol wrth ddefnyddio ystod o offer a deunyddiau wrth greu darnau celf a chrefft i'w cyflwyno yn Eisteddfod Ceiriog. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau perfformio'n greadigol gan cyfansoddi caneuon a chreu dawnsfeydd i'w perfformio yn sioe dalent yr ysgol, er enghraifft.

Yn y ddwy ffrwd, mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau buddiol. Er enghraifft, mae medrau'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n llwyddiannus wrth greu llysnafedd allan o wahanol ddeunyddiau yn yr ardal greadigol. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n datblygu eu gallu I gydbwyso, er enghraifft wrth ddefnyddio'r offer dringo mewn gweithgareddau ysgol y goedwig.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn dangos parch a gofal at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn teimlo'n hapus o fewn ei naws gynhwysol. Mae'r disgyblion a'u rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal mae'r staff yn ei ddarparu ac maent yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn ardderchog mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl.

Trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol a chreadigol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o'u hawliau, er enghraifft yr hawl i ymlacio a chwarae, wrth iddynt gymryd rhan mewn gwasanaethau torfol. Mae bron bob un yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill mewn cymdeithas ac maent yn awyddus i drefnu gweithgareddau wrth godi arian i elusennau amrywiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio'n aeddfed ac yn mwynhau rhannu eu profiadau ag oedolion. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cyfrannu eu syniadau'n dda mewn ystod briodol o weithgareddau. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn codi arian i brynu gemau newydd i'r clwb brecwast ac yn trefnu cystadleuaeth greadigol ar gyfer diwrnod 'Mae gan Ysgol Cynddelw Dalent.' Yn ogystal, mae'r cyngor eco yn flaenllaw wrth gynllunio a chreu tai draenogod fel rhan o ddathliadau diwrnod eco. Fel rhan o'u themâu, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion byd eang fel yr effaith negyddol mae digoedwigo fforestydd glaw yn ei chael ar newid hinsawdd. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu'n ddinasyddion gwybodus sy'n trafod pynciau cyfoes a moesegol yn synhwyrol.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarn at eu dysgu ac maent yn lleisio eu barn yn aeddfed wrth ymateb i'r ymholiadau tymhorol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cynnig awgrymiadau am sut i gyfoethogi'r ardaloedd allanol ymhellach, er enghraifft datblygu gardd chwarae ddychmygol a cyffrous. Mae disgyblion y dosbarthiadau hynaf yn mwynhau cyfrannu syniadau a chwestiynau at y mapiau meddwl ar ddechrau themâu newydd. Mae disgyblion ar draws y ffederasiwn yn mwynhau rhannu eu syniadau â'u cyfoedion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gryfhau'r berthynas weithiol a chymdeithasol rhwng disgyblion y ddwy ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n gydwybodol mewn gwersi. Pan mae'r athrawon yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau'n annibynnol, maent yn dysgu'n ddiwyd ac yn cwblhau eu gweithgareddau'n frwdfrydig. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol hyd orau eu gallu bob tro. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cydweithio â'u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i ddatrys heriau, gan wneud defnydd effeithiol o ddulliau hunangywiro i symud eu dysgu yn ei flaen. Maent yn gwrando'n aeddfed ar safbwyntiau ei gilydd ac yn trafod eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth amcangyfrif faint o hylif sydd ymhob cynhwysydd fel rhan o'u gwaith mathemateg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i gadw'n iach trwy'r amrywiaeth o weithgareddau cadw'n heini o fewn yr ysgol. Trwy eu themâu, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r effaith mae diet cytbwys ac ymarfer corff yn ei chael ar eu hiechyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol, gan gynnwys y sesiynau ysgol y goedwig ac addysg gorfforol. Mae'r disgyblion hynaf yn ymfalchïo bod trefniadau ar gael iddynt ymuno â'u cyfoedion ar draws y ffederasiwn i gystadlu fel tîm mewn amrywiaeth o dwrnameintiau lleol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio cyson ac effeithiol ar draws y ffederasiwn. Mae athrawon yn cynllunio'n fanwl ar gyfer cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac yn rhannu syniadau'n barhaus i ddarparu cwricwlwm eang o chyfoethog i ddisgyblion y ddwy ysgol. Maent yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd er mwyn trafod y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion, sydd yn ei dro yn hwyluso'r addysgu a'r dysgu'n hynod effeithiol.

Mae cwricwlwm yr ysgol wedi ei seilio'n gadarn yng nghynefin y disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddysgu am hanes a thraddodiadau Cymru, tra hefyd yn hyrwyddo eu hymwybyddiaeth fod y Gymraeg yn rhan o ddiwylliant bywiog a chyfoes eu hardal leol. Mae'r athrawon yn hyrwyddo dysgu'r disgyblion yn fuddiol trwy gaffael eu syniadau a'u diddordebau. Er enghraifft, mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion edrych ar effaith y gorffennol ar eu bywydau heddiw, a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol. Trwy hyn, mae'r disgyblion yn datblygu eu hymwybyddiaeth am bwysigrwydd y Gymraeg i gymunedau Cymru heddiw. Yn sgil hyn, cynhyrchodd y disgyblion bamffled personol i annog pobl i ddatblygu agweddau cadarnhaol at y Gymraeg.

Mae'r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu, tu fewn a thu allan i'r adeilad, yn gyfoethog ac yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion chwarae, dysgu ac ymchwilio mewn amgylchedd diddorol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa'n fawr o brofiadau sy'n datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae'r athrawon yn holi'r disgyblion am eu syniadau ac yn addasu'r ddarpariaeth yn greadigol yn unol â'u diddordebau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar a darllen disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith am wahanol agweddau o'u gwaith. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn chwarae gemau mathemategol yn Gymraeg, gan ddangos safon dda o rugldер wrth ddefnyddio iaith fathemategol gyda'i gilydd. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau darllen diddorol yn dda sy'n datblygu eu hyder yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae llawer o'r ddisgyblion hynaf yn trafod eu gwaith cyfrifiadurol yn hyderus gan egluro sut mae eu gwefan bersonol yn fodd iddynt arbed a chael mynediad at eu gwaith yn hwylus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig na rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn y ddwy ffrwd yn hyderus eu medrau wrth siarad Cymraeg ac yn cefnogi disgyblion yn hynod effeithiol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r

defnydd cywir o'r iaith. Yn nosbarth y disgyblion ieuengaf yn y ffrwd Gymraeg, mae'r staff yn annog dealltwriaeth a hyder disgyblion i fynegi eu hunain ar lafar o oedran cynnar. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn gynyddol gywir yn Gymraeg. Yn nosbarth y disgyblion ieuengaf yn y ffrwd Saesneg, mae'r disgyblion yn trafod eu gwaith yn aeddfed, yn rhannu syniadau ac yn mynegi barn am wahanol agweddau o'u gwaith yn dda. Mae eu dealltwriaeth o'r Gymraeg a'r defnydd ohoni yn datblygu'n gadarn.

Mae staff yn meithrin perthynas weithio agos a hynod gefnogol â'r disgyblion. Mae'r athrawon yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn eu hannog i feddwl drostynt eu hunain, i fynegi barn a chynnig rhesymau dros eu safbwyntiau. Mae'r athrawon yn cyflwyno nodau dysgu a meini prawf llwyddiant addas. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o weithgareddau gwahanol.

Mae'r staff yn cynnig adborth llafar defnyddiol i'r disgyblion yn ystod eu gweithgareddau ac mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gynyddol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Mae adborth ysgrifenedig eu cyfoedion ac athrawon yn cefnogi disgyblion yn effeithiol i ystyried meini prawf llwyddiant tasgau penodol. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol hyd orau eu gallu bob tro.

Mae arweinwyr yn craffu ar gynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r staff cymorth yn canolbwyntio ar ystod o wybodaeth am gynnydd medrau'r disgyblion, a hefyd yn talu sylw effeithiol i'w lles. Mae hyn yn darparu darlun manwl o ddatblygiad y disgyblion fel unigolion cyflawn yn ogystal â darparu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd grwpiau penodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn hynod lwyddiannus. Golyga hyn fod bron bob disgybl yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Mae'r staff yn ymdrin ag unrhyw fater sy'n codi mewn modd cefnogol a chaiff pryderon eu datrys yn gyflym. O ganlyniad i'r berthynas gynhaliol rhwng y disgyblion a'r staff, mae bron bob disgybl yn hapus i ddod i'r ysgol, yn cydweithio'n dda o fewn y gwersi ac yn cyd chwarae'n briodol yn ystod amseroedd egwyl.

Mae gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) brosesau cadarn i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl ac yn gwerthuso effaith rhaglenni cefnogi ar eu cynnydd yn effeithiol. Mae proffiliau un tudalen pwrpasol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion unigol disgyblion a'r hyn sydd ei angen arnynt i ddatblygu ymhellach. Mae'r CADY yn darparu cyfleoedd i rieni, staff a disgyblion gyfrannu'n bwrpasol at gynllun datblygu unigol disgyblion. Mae'r staff yn gwerthuso cynnydd y disgyblion yn erbyn eu targedau er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau dros gyfnod.

Mae gan yr ysgol drefniadau gwerthfawr ar gyfer addoli ar y cyd. Er enghraifft, mae athrawon a disgyblion yn cynnal gwasanaethau ar themâu fel hawliau'r plentyn a dulliau dysgu. Mae athrawon yn ysbrydoli'r disgyblion drwy rannu hanes enwogion dylanwadol fel Betsi Cadwaladr, gan annog disgyblion i fyfyrio ar bobl maent yn eu hedmygu. Er enghraifft, mae'r 'Criw Cymraeg', sydd â chynrychiolaeth o ddwy ffrwd

yr ysgol, yn arwain gwasanaeth buddiol yn Gymraeg er mwyn cefnogi medrau siarad eu cyfoedion.

Trwy themâu ysgogol, mae’r athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn creu podlediad defnyddiol ar gyfer ymwelwyr sy’n cynnwys ffeithiau diddorol am yr ardal leol. Mae staff yn hyrwyddo Cymreictod y disgyblion yn hynod effeithiol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn mwynhau cystadlu yn eisteddfod yr ysgol ac yn Eisteddfod Glyn Ceiriog. Yn ogystal, darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion y ddwy ysgol gystadlu fel ffederasiwn yn Eisteddfod yr Urdd, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae’r ysgol yn cynnig ystod o glybiau a gweithgareddau atyniadol sy’n cyfoethogi’r cwricwlwm ac yn rhoi cyfleoedd cymdeithasol a phwrpasol i ddisgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithdai drymiau, i fynychu clwb yr Urdd a’r clwb gwyddbwyll. Trwy hyn, mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau personol a chreadigol yn hynod lwyddiannus.

Mae’r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion ddylanwadu ar nifer o faterion yn ymwneud â bywyd yr ysgol trwy weithgareddau’r cyngor ysgol a’r cyngor eco. Er enghraifft, mae aelodau’r cyngor eco yn flaenllaw wrth ddatblygu ardaloedd allanol yr ysgol gan gynnwys gwneud cais am grant i ddatblygu’r ardd lysiau a ffrwythau. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o daith eu bwyd o’r pridd i’r plât. Drwy drafod ystod o faterion byd-eang, mae’r athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Er enghraifft, mae’r athrawon yn trefnu bod cynrychiolydd o elusen ryngwladol yn ymweld â’r ysgol i ddwysáu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd dŵr i bawb ledled y byd. Yn dilyn hyn, trefnodd y disgyblion ieuengaf daith gerdded noddedig er budd yr elusen.

Mae’r staff yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau sy’n annog disgyblion i ddefnyddio’u dychymyg yn greadigol. Er enghraifft, yn dilyn eu gwaith am y bardd Hedd Wyn, maent yn dylunio a chreu cadeiriau eisteddfod o glai. Yn ogystal, maent yn dylunio a chreu model o barc anifeiliaid ar raddfa fawr. Mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn grefftus drwy greu ac addurno offerynnau Affricanaidd a thrwy greu lluniau deniadol wrth efelychu gwaith artist enwog ar anifeiliaid prin.

Mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol mewn ystod briodol o weithgareddau. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol trwy ddarparu sesiynau buddiol yn y goedwig. Yn ogystal, mae staff yn trefnu twrnameintiau pêl-droed a phêl-rwyd i’r disgyblion ddatblygu eu medrau’n fuddiol. Mae bron bob disgybl yn cael boddhad o’r amrywiol offer sydd ar gael iddynt yn ystod amser egwyl, gan gynnwys y ffrâm ddringo a’r cwrs rhwystrau.

Mae’r arweinwyr yn creu ethos diogelu effeithiol ar draws ysgolion y ffederasiwn. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o bolisi a phrosesau amddiffyn plant. Mae trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei phenodi ym 2021, mae’r pennaeth wedi llwyddo i greu gweledigaeth glir a chyson ar gyfer ysgolion y ffederasiwn. Mae staff yn cydweithio’n hynod effeithiol i sicrhau bod lles y disgyblion a’r staff yn flaenllaw yn y ddwy ysgol. Mae’r ysgolion yn gymunedau hapus a chyfeillgar gyda’r ymdeimlad o fod yn rhan o un teulu mawr yn treiddio trwy bob elfen o waith a bywyd y ffederasiwn.

Mae’r holl staff yn cydweithio’n bwrpasol er mwyn darparu profiadau dysgu ysgogol a difyr sy’n diwallu anghenion llawer o ddisgyblion. Maent yn rhoi blaenoriaeth amlwg i ddatblygu medrau Cymraeg a balchder pob disgybl o Gymru. O ganlyniad, mae disgyblion yn y ddwy ffrwd, yn enwedig disgyblion sy’n derbyn neu haddysg yn y ffrwd Gymraeg, yn hyderus wrth sgwrsio yn y Gymraeg ac yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae gan bob aelod o staff addysgu dargedau unigol sy’n cysylltu’n bwrpasol â’r blaenoriaethau gwella, ac sy’n diwallu eu anghenion dysgu proffesiynol. Mae gan yr ysgol drefniadau clir i sicrhau bod gan y disgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac i ymddwyn yn briodol o gwmpas yr ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad ac ymrwymiad bron bob disgybl at eu gwaith a bywyd yr ysgol yn dda.

Mae’r pennaeth wedi gweithio’n ddiwyd i rannu cyfrifoldebau’n  effeithiol ymysg y staff. Ar draws y ffederasiwn, mae’r holl staff yn gweithio mewn timau, gan gynnwys timau i ddatblygu’r cwricwlwm a gwella lles disgyblion. Mae’r staff cymorth yn cael cyfleoedd buddiol i arwain mewn nifer o feysydd, er enghraifft wrth ddarparu sesiynau ymyrraeth i ddisgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol, ac wrth gynnal sesiynau datblygu medrau llythrennedd disgyblion. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn derbyn cefnogaeth lles gadarn a phrofiadau dysgu ysgogol a difyr.

Mae gan y llywodraethwyr a’r staff adnabyddiaeth briodol o gryfderau’r ysgol  a’i meysydd i’w gwella. Fel rhan o’r prosesau hunanwerthuso, mae’r arweinwyr a’r athrawon yn cymryd rhan mewn amrywiaeth addas o weithgareddau monitro yn gyson, er enghraifft dadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion, craffu ar eu gwaith a chynnal teithiau dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau hunanwerthuso yn adnabod y meysydd i’w gwella nac yn darparu camau bwriadus i ddatblygu’r ddarpariaeth ymhellach yn ddigon amserol bob tro.

Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer y staff. Er enghraifft, mae athrawon yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau i ddatblygu eu rôl arwain fel rhan o’r ddarpariaeth i’w cefnogi i ystyried y camau nesaf yn eu gyrfaoedd. Mae athrawon y ddwy ysgol yn cael cyfleoedd buddiol i gydweithio â’i gilydd ac ysgolion eraill y clwstwr, er enghraifft trwy arwain ar elfennau pwysig o’r Cwricwlwm i Gymru, sy’n cynnwys datblygu medrau llafar a llythrennedd Cymraeg a digidol disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgolion yn effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau addas am wariant er budd a phrofiadau’r disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi buddsoddi’n sylweddol yn  ardaloedd allanol y disgyblion ieuengaf. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfoethogi’r ddarpariaeth a’r profiadau dysgu ar gyfer y disgyblion ieuengaf. Gwneir defnydd da o’r grant datblygu disgyblion i

ddarparu sesiynau hybu lles disgyblion, sydd yn ei dro yn cael effaith fuddiol ar hyder ac ymddygiad disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi gwaith yr ysgol. Maent yn mynychu cyfarfodydd fel corff llawn yn dymhorol ac fel rhan o'u cyfrifoldebau yn yr is bwyllgorau, sy'n cynnwys y pwyllgorau cwricwlwm, cyllid a lles. Yn ystod y cyfarfodydd, maent yn craffu ar ddogfennaeth ac yn cyfrannu at drafodaethau ag aelodau o'r staff, gan ddwyn arweinwyr i gyfrif, pan fo'r angen. Mae'r corff yn hybu bwyta ac yfed yn iach ar gyfer disgyblion yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae'r llywodraethwyr wedi cyfrannu at gynnwys llythyrau i rieni ynglŷn â'r angen i ddarparu bwyd maethlon i'w plant yn eu bocsys bwyd amser cinio. Gyda'i gilydd, mae arweinwyr y ffederasiwn yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus.

Ar draws y ffederasiwn, mae cydweithio â rheini a'r gymuned leol yn rhan annatod o waith staff yr ysgolion. Mae rhieni'n  cael cyfleoedd cyson i gyfrannu a rhannu eu syniadau am y ddarpariaeth, er enghraifft drwy holiaduron a nosweithiau agored ynglŷn â phrofiadau dysgu dymunol ar gyfer eu plant a chynnwys y cwricwlwm. Yn ddiweddar, mae'r rheini wedi mynychu 'prynhawn paned a chacen' gyda'r nod o hybu medrau Cymraeg y rheini er mwyn iddynt gefnogi datblygiad iaith eu plant gartref. Mae arweinwyr yn croesawu aelodau o'r gymuned i'r ysgolion yn gyson er mwyn trafod eu gwaith a rhannu eu harbenigedd â'r disgyblion. Yn ddiweddar, er enghraifft, mae un o'r trigolion wedi ymweld â'r ysgol i addysgu'r disgyblion sut i glocsio i gerddoriaeth draddodiadol Gymreig.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023